# TRIBIWNLYS ADOLYGU IECHYD MEDDWL CYMRU

## CANLLAWIAU AR ARSYLWI AR WRANDAWIADAU'R TRIBIWNLYS

Diben y canllawiau hyn yw pennu'r telerau a'r amodau ynglŷn ag arsylwi ar wrandawiadau tribiwnlysoedd, sydd fel arfer yn cael eu cynnal yn breifat, ac ymdrin yn briodol ag adroddiadau cyfrinachol a thystiolaeth ddogfennol arall.

**Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru 2008**

1. Mae Rheol 25(1) yn darparu bod rhaid i bob gwrandawiad gael ei gynnal yn breifat oni bai bod y Tribiwnlys o'r farn ei bod er budd y claf i'r gwrandawiad gael ei gynnal yn gyhoeddus. Mae Rheol 10(1) hefyd yn darparu na chaniateir cyhoeddi gwybodaeth am achosion iechyd meddwl ac enwau unrhyw bersonau sy'n ymwneud ag achosion o'r fath, oni bai bod y Tribiwnlys yn rhoi cyfarwyddyd i'r gwrthwyneb. Pan fo gwrandawiad, neu ran ohono, i'w gynnal yn breifat, caiff y Tribiwnlys benderfynu pwy sy'n cael mynd i'r gwrandawiad neu ran ohono (Rheol 25(3)).

2. Ac eithrio mewn perthynas ag ymsefydlu, hyfforddiant ac arfarniadau i aelodau, ceir rhagdybiaeth gref ym mhob achos o blaid preifatrwydd a chyfrinachedd, ac ni ddylai tribiwnlysoedd unigol arfer pwerau i gynnal trafodion yn gyhoeddus, na datgelu unrhyw wybodaeth am achosion iechyd meddwl i bobl eraill y tu allan i'r awdurdodaeth (gan gynnwys i farnwyr mewn awdurdodaethau eraill), heb ymgynghori â'r Llywydd yn gyntaf. Yn ychwanegol, heblaw fel uchod, rhaid gofyn barn y claf a/neu gynrychiolydd y claf cyn datgelu gwybodaeth gyfrinachol berthnasol, a rhaid parchu unrhyw wrthwynebiadau gan y claf a/neu gynrychiolydd y claf.

**Categorïau o Sylwedyddion**

**Ymsefydlu neu Hyfforddiant i Aelodau**

3. Ar ôl cael ei benodi'n aelod o'r Tribiwnlys, un o delerau ac amodau penodi person yw y dylai, oni bai bod ganddo brofiad blaenorol perthnasol digonol, arsylwi ar nifer o wrandawiadau tribiwnlys fel rhan o'i broses ymsefydlu neu ei hyfforddiant cyn bod ganddo hawl i eistedd. Rhaid i'r cyfnodau arsylwi hyn gael eu hwyluso ac, ar yr amod bod cadeirydd y gwrandawiad a'r staff gweinyddol yn cael gwybod ymlaen llaw, mae'r canllawiau canlynol yn gymwys:-

3.1 Nid yw presenoldeb y sylwedydd yn y gwrandawiad yn dibynnu ar gydsyniad y claf, y tystion, aelodau unigol o'r tribiwnlys, nac unrhyw barti arall. Er hynny, os yw presenoldeb y sylwedydd yn peri i glaf deimlo'n anghyffyrddus neu'n ofidus, gall y sylwedydd a chadeirydd y gwrandawiad (ar ôl ymgynghori â chydweithwyr) gytuno na ddylid arsylwi, neu y dylid rhoi'r gorau i arsylwi.

3.2 Mae gan y sylwedydd hawl i gael copïau o'r adroddiadau neu'r dogfennau eraill sydd gerbron y tribiwnlys, naill ai cyn y gwrandawiad neu ynddo, ar y ddealltwriaeth lem na ddylai'r cynnwys gael ei wneud yn gyhoeddus o dan unrhyw amgylchiadau.

3.3 Dylai cadeirydd y gwrandawiad gytuno â'r sylwedydd sut y caiff y sylwedydd ei gyflwyno i'r partïon.

3.4 Dylai'r sylwedydd eistedd lle mae cadeirydd y gwrandawiad (ar ôl ymgynghori â chydweithwyr) yn teimlo ei bod yn briodol, a dylai arddel rôl mor oddefol â phosibl gan roi sylw i gynllun ystafell y gwrandawiad ac agosrwydd y partïon.

3.5 Rhaid i'r sylwedydd beidio ag ymyrryd mewn unrhyw ffordd yn ystod y gwrandawiad.

3.6 Mae gan y sylwedydd hawl i wneud unrhyw nodiadau sy'n briodol at ddibenion yr arsylwi. Rhaid cadw nodiadau o'r fath yn gwbl gyfrinachol ac fel na ellir adnabod y claf ac ni chaniateir eu gwneud yn gyhoeddus o dan unrhyw amgylchiadau.

3.7 Mae gan y sylwedydd hawl i fod yn bresennol yn ystod trafodaethau'r Tribiwnlys, ond ni chaniateir iddo gymryd unrhyw ran o gwbl yn y trafod.

**Arfarnwyr**

4. Rhaid i arfarniadau gael eu hwyluso a rhaid hysbysu cadeirydd y gwrandawiad a'r staff gweinyddol ymlaen llaw. Yn yr ystyr bod arfarnwr yn sylwedydd, mae rôl a swyddogaethau arfarnwr sy'n bresennol yn y gwrandawiad i werthuso un o'r aelodau wedi'u nodi yng Nghanllaw Arfarnu Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Mae'r canllawiau a nodir ym mharagraffau 3.1 i 3.7 uchod hefyd yn gymwys, fel y bo'n briodol.

**Pobl Eraill yn Gofyn am Arsylwi ar Wrandawiad Tribiwnlys**

5. Cyfyngedig fydd y categorïau o bobl sy'n dymuno arsylwi ar wrandawiad tribiwnlys. Ni chytunir ar arsylwadau fel unrhyw ran gyffredinol o addysg staff, hyfforddeion na myfyrwyr. Rhaid i amcanion hyfforddi penodol gael eu nodi ar gyfer unrhyw un sy'n gofyn am arsylwi ar wrandawiad. Nid yw caniatâd yn debygol o gael ei roi oni bai bod bwriad i'r sylwedydd gymryd rhan uniongyrchol mewn gwrandawiadau tribiwnlys yn y dyfodol. Dylai pob cais am waith arsylwi nad yw wedi'i gynnwys ym mharagraffau 3 a 4 uchod gael ei wneud ymlaen llaw i'r Llywydd yn y lle cyntaf i gael penderfyniad rhagarweiniol. Os bydd cynrychiolydd, aelod o staff ysbyty neu weithiwr proffesiynol perthnasol arall yn ymddangos mewn gwrandawiad gyda myfyriwr neu sylwedydd arfaethedig heb fod wedi gofyn am ganiatâd ymlaen llaw, rhaid i'r Tribiwnlys ymdrin ag unrhyw gais o dan Reolau 10 a 25 yn unol â'i ragoriaethau a bydd yr egwyddor ynglŷn â chymryd rhan mewn gwrandawiadau tribiwnlys yn y dyfodol yn gymwys. Er hynny, ym mhob achos o'r fath, rhaid cydnabod nad yw sylwedyddion o'r fath yn debygol o fod yn aelodau o'r awdurdodaeth ac, felly, y bydd y rheolau y cyfeirir atynt ym mharagraff 1, a'r canllawiau ym mharagraff 2 uchod, yn gymwys.

6. Os gofynnir iddi ymlaen llaw, fe allai'r Llywydd nodi nad oes ganddi wrthwynebiad i bresenoldeb y sylwedydd penodol am y rhesymau a roddwyd i gefnogi'r cais, ond bod rhaid gofyn beth bynnag i'r claf, y tystion, aelodau'r tribiwnlys a'r partïon eraill roi eu barn cyn i'r tribiwnlys sy'n gwrando'r achos wneud cyfarwyddyd o dan Reol 25(3) yn caniatáu i'r sylwedydd fod yn bresennol.

7. Os bydd caniatâd i arsylwi'n cael ei roi, bydd y canllawiau a ganlyn yn gymwys:-

7.1 Rhaid i'r adroddiadau ac unrhyw ddogfennau eraill sydd gerbron y Tribiwnlys <u>beidio</u> â chael eu datgelu i'r sylwedydd unrhyw bryd.

7.2 Rhaid i gadeirydd y gwrandawiad hysbysu'r sylwedydd bod y trafodion gerbron y tribiwnlys yn gyfrinachol ac na chaniateir, o dan unrhyw amgylchiadau, i

wybodaeth am y trafodion ac enwau unrhyw bobl sy’n ymwneud â’r trafodion gael eu cyhoeddi gan y sylwedydd.

7.3 Dylai cadeirydd y gwrandawiad gytuno â'r sylwedydd sut y caiff y sylwedydd ei gyflwyno i'r partïon.

7.4 Dylai'r sylwedydd eistedd lle mae cadeirydd y gwrandawiad (ar ôl ymgynghori â chydweithwyr) yn teimlo ei bod yn briodol, a dylai arddel rôl mor oddefol â phosibl gan roi sylw i gynllun ystafell y gwrandawiad ac agosrwydd y partïon.

7.3 Rhaid i’r sylwedydd beidio ag ymyrryd mewn unrhyw ffordd yn ystod y gwrandawiad.

7.4 Ni ddylai'r sylwedydd gymryd unrhyw nodiadau yn ystod y gwrandawiad.

7.5 Nid oes gan y sylwedydd hawl i fod yn bresennol yn ystod trafodaethau'r Tribiwnlys a dylai ymneilltuo, ynghyd â'r partïon, o ystafell y gwrandawiad unrhyw bryd pan fydd y Tribiwnlys wrthi’n trafod

**Carolyn Kirby, OBE**
**Llywydd**
**Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru**

**22 Awst 2019**